



Ysgol Gyfun Garth Olwg

Pennaeth / Head Teacher
Mrs. A. Williams B.A., C.P.C.P

Campws Cymuned Gartholwg, Y Brif Ffordd / Main Road,
Pentre'r Eglwys, Pontypridd, CF38 1DX

☎ 01443 219580 ☎ 01443 219596
gweinyddol@campwsgartholwg.org.uk
www.gartholwg.co.uk

Gorffennaf, 2013

Annwyl Riant / Warchodwr,

A hithau'n prysur agosáu at ddiwedd y flwyddyn hoffwn ddiolch yn fawr i chi am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.

Dyma'r cyfle felly i ail-gyflwyno'r canllawiau ar gyfer gwisg a chyfarpar ysgol cyn i chi fynd ati i brynu'r pethau hynny.

Ein bwriad wrth ail-gyflwyno'r canllawiau yw cefnogi'n disgyblion Bl.12/13 a'u rhieni ac osgoi unrhyw wrthdaro dianghenraid allai godi yn sgil gwisg ysgol anaddas a.y.b. Rydym yn ffortunus iawn i gael lefel uchel o gefnogaeth gan ein rhieni a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am gydweithio gyda ni i sicrhau bod ein pobl ifanc yn hapus ac yn llwyddiannus.

Yn gywir,

Mrs. A. Williams
Pennaeth

GWISG YR YSGOL

Mae gwisg ysgol yn symbol gweladwy o barch at gymuned yr ysgol rydym yn perthyn iddi. Ymfalchiwn yn ymddangosiad ein disgyblion a phwysleisir iddynt yn gyson bod y wisg gywir yn hanfodol ar bob adeg - o fewn yr ysgol a'r tu allan iddi, ar y ffordd i'r ysgol ac adre ar ddiwedd y dydd.

Gofynnir yn garedig i rieni gefnogi'r ysgol yn ein hymdrech i sicrhau ymddangosiad trwsiadus pob disgybl drwy sicrhau nad yw'r disgyblion yn gwisgo dillad 'ffasiwn' sy'n anaddas i fywyd bob dydd yn yr ysgol. (**Mae hyn yn cynnwys trowsus tynn megis Jeggins/Leggins , sgertiau byr, a throwsus o steil jeans neu ddefnydd denim**).

Dyma'r canllawiau am wisg swyddogol dderbyniol:

BLYNYDDOEDD 12 – 13

Merched	Bechgyn
Sgert neu drowsus ffurfiol llwyd neu ddu (Dim "jeans/jeggings/leggings".)	Trowsus ffurfiol llwyd neu ddu (Dim "jeans".)
Blows Wen Caniateir crysau polo gyda bathodyn yr ysgol yn yr haf.)	Crys gwyn (Caniateir crysau polo gyda bathodyn yr ysgol yn yr haf.)
Cardigan/siwmpwr ddu neu lwyd blaen Gwddf V gyda bathodyn yr ysgol.	Cardigan/Siwmpwr ddu neu lwyd blaen gwddf V gyda bathodyn yr ysgol.
Tei Bl.12/13 ar gael o'r ysgol (£5.00)	Tei Bl.12/13 ar gael o'r ysgol (£5.00)
Esgidiau du (Nid "trainers".)	Esgidiau du (Nid "trainers".)
Dim 'flip flops' o achos lechyd a Diogelwch	Dim 'flip flops' o achos lechyd a Diogelwch
Dillad tu fas	Dillad tu fas
Cot ddu blaen (nid yw cotiau lledr yn addas i'r ysgol)	Cot ddu blaen (nid yw cotiau lledr yn addas i'r ysgol)
Sgarff ddu blaen (dewisol)	Sgarff ddu blaen (dewisol)
'Fleece' du gyda bathodyn yr ysgol	'Fleece' du gyda bathodyn yr ysgol
Clustdlysau – un pâr o gylchoedd bach neu styds Ni allwn gynnig iawndal am dlysau a gollir yn yr ysgol.	

YMDDANGOSIAD

Er mwyn sicrhau safonau ymddangosiad uchaf ein disgyblion, nid yw'r ysgol yn caniatáu colur, paent ewinedd lliw a dim ond gwallt o liwiau naturiol sy'n dderbyniol.

Yn unol â deddfwriaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru mae'r Campws yn ardal **DIM YSMYGU**.

GWYLIAU 2013-2014

	Tymor yn dechrau	Hanner Tymor yn dechrau	Hanner Tymor yn gorffen	Tymor yn gorffen
Hydref 2013	Llun 2 Medi	Llun 28 Hydref	Gwener 1 Tachwedd	Gwener 20 Rhagfyr
75 Diwrnod				
Gwanwyn 2014	Llun 6 Ionawr	Llun 24 Chwefror	Gwener 28 Chwefror	Gwener 11 Ebrill
50 Diwrnod				
Haf 2014	Llun 28 Ebrill	Llun 26 Mai	Gwener 30 Mai	Llun 21 Gorffennaf
70 Diwrnod				

Gŵyl y Banc: Dydd Llun 5 Mai 2014

Bydd cyfarfod i bawb o Flwyddyn 12 yn y Llyfrgell am 8.30y.b. Cewch gyfle yn ystod y dydd i gadarnhau eich dewis o bynciau a bydd cyngor ar gael os oes angen cymorth arnoch chi.

	Blwyddyn 12	Blwyddyn 13
4 ^{ydd} Medi, 2013	Y Fagloriaeth Pwll Mawr	Y Fagloriaeth Datrys Problemau
5 ^{ed} o Fedi, 2013	Y Fagloriaeth – Amgueddfa y Glannau, Abertawe	Y Fagloriaeth Technoleg Gwybodaeth
6 ^{ed} o Fedi, 2013	Y Fagloriaeth Sw Bryste	Y Fagloriaeth Technoleg Gwybodaeth